



BENTHYCIADAU COFNODLYFR GWARDHOD DEFNYDDWYR BREGUS

- 1.1 Mae oddeutu 50,000 o bobl yn cymryd benthyciad cofnodlyfr bob blwyddyn. Wrth wneud hyn, mae'r benthyciwr yn trosglwyddo perchnogaeth eu car, eu fan neu'u beic modur i'r rhoddwr benthyciadau cofnodlyfr. Cyn belled ag y mae'r benthyciwr yn parhau gyda'r ad-daliadau, gallan nhw gadw'r cerbyd a pharhau ei ddefnyddio. Ond os yw'r benthyciwr yn diffyg dalu, gall y canlyniadau fod yn ddifrifol iawn: gallan nhw golli meddiant o'r cerbyd yn gyflym, tra'n gorfod, yn ogystal, delio gyda benthyciad heb ei dalu sy'n cynyddu'n gyflym a thaliadau trwm.
- 1.2 Mae benthycwyr benthyciadau cofnodlyfr yn tueddu i fod yn eilaidd. Efallai y bydd yn anodd iddyn nhw gael mynediad at fathau mwy traddodiadol o fenthyca. Un o'r beirniadaethau mwyaf a wneir am fenthyciadau cofnodlyfr yw bod benthycwyr bregus o'r fath yn derbyn ychydig iawn o warchodaeth gyfreithiol.
- 1.3 Nid benthycwyr yn unig sy'n gallu dioddef niwed. Mae'r rhai hynny, sy'n ddiarwybod, yn prynu cerbyd ail law sy'n amodol ar fenthyciad cofnodlyfr, yn wynebu dewisiadau llwm. Fel arfer, eu dewisiadau yw talu benthyciad cofnodlyfr rhywun arall, talu am y cerbyd eilwaith neu golli'r cerbyd i'r rhoddwr benthyciadau cofnodlyfr. Nid yw'r trefniadau gwarchod a fyddai ar gael i unigolyn sy'n prynu cerbyd yn amodol ar gyllid hurbwrcasu sydd heb ei dalu yn berthnasol.
- 1.4 Mae Comisiwn y Gyfraith yn ymgynghori ar gynigion i ddiwygio'r gyfraith mewn perthynas â benthyciadau cofnodlyfr. Rydym yn croesawu eich barn erbyn **9 Rhagfyr 2015**. Crynodeb byr yw hwn. Am wybodaeth lawn, ewch i <http://www.lawcom.gov.uk/project/bills-of-sale>.

GWARCHOD BENTHYCWYR

- 1.5 Os yw benthycwyr yn diffyg dalu, mae'n bwysig na ddylid caniatáu i roddwyr benthyciadau cofnodlyfr adfeddiannu cerbydau yn rhy hawdd. Mewn rhai achosion, yr unig ddewis realistig i fenthycwyr efallai fydd ildio eu cerbydau, ond dylid gwneud hyn pan fydd popeth arall wedi methu.
- 1.6 Rydym yn cynnig dwy warchodaeth newydd ar gyfer benthycwyr, yn seiliedig ar y rhai hynny sydd eisoes ar gael i hurbrynwyr. Eu bwriad yw gwarchod benthycwyr mewn dwy sefyllfa wahanol.

BENTHYCWYR MEWN ANAWSTERAU ARIANNOL DROS DRO

Os yw benthycwyr wedi parhau gyda'r ad-daliadau o'r blaen, ond eu bod yn darganfod eu hunain mewn anawsterau ariannol dros dro, rydym yn cynnig y dylid eu gwarchod gan ofyniad bod angen i roddwyr benthyciadau cofnodlyfr ymgeisio am **orchymyn llys**.

BENTHYCWYR SYDD DDIM YN GALLU AD-DALU'R BENTHYCIAD COFNODLYFR

Os nad oes gan fenthycwyr unrhyw obaith realistig o allu parhau i wneud ad-daliadau, rydym yn cynnig y dylen nhw gael yr hawl i **derfyniad gwirfoddol**.

Gorchymyn llys

- 1.7 Ambell waith gall fod benthycwyr eisoes wedi ad-dalu swm sylweddol o'u benthyciad cofnodlyfr cyn darganfod eu hunain mewn anawsterau ariannol dros dro. Os yw benthycwyr o'r fath yn diffyg dalu, rydym yn cynnig na ddylai'r rhoddwr benthyciadau cofnodlyfr gael ei ganiatáu i adfeddiannu'r cerbyd heb fynd at farnwr i gael **gorchymyn llys**.
- 1.8 Byddai gan y barnwr y pŵer i roi mwy o amser i'r benthyciwr i ad-dalu'r benthyciad cofnodlyfr a/neu leihau'r gyfradd llog dros dro. Yn ogystal, gallai'r barnwr atal yr adfeddiannu dros dro tra mae'r benthyciwr yn trefnu gwneud ad-daliadau. Y diben yw helpu'r rhai hynny sy'n gallu ad-dalu'r benthyciad cofnodlyfr os ydyn nhw'n cael mwy o amser.

CYNNIG 1: GORCHYMYN LLYS

Os yw benthycwyr wedi ad-dalu fwy na thraean o gyfanswm y benthyciad, ni ddylai rhoddwr benthyciadau cofnodlyfr gael yr hawl i adfeddiannu'r cerbyd heb yn gyntaf fynd i'r llys a chael gorchymyn. Os yw benthycwyr wedi ad-dalu llai na thraean o gyfanswm y benthyciad, byddai gan y rhoddwr benthyciadau cofnodlyfr yr hawl i adfeddiannu'r cerbyd heb orchymyn llys.

- 1.9 Mae'r rheol "traean" eisoes yn berthnasol i gytundebau hurbwrcasu. Ei fwriad yw gwahaniaethau rhwng y rhai hynny sydd wedi dangos bwriad i ad-dalu a'r rhai sydd heb wneud hynny. Mae enghraifft o sut y byddai'r rheol traean yn berthnasol i fenthyciadau cofnodlyfr yn cael eu rhoi yn y papur ymgynghori llawn ar dudalen 137.
- 1.10 Ar gyfer benthycwyr, budd amlwg y gofyniad am orchymyn llys yw y dylai osgoi adfeddiannu diangen, ac o bosibl trawmatig, o'u cerbyd. Yn ogystal, bydd yn:
 - (1) sicrhau bod rhoddwyr benthyciadau cofnodlyfr yn gweld adfeddiannu fel y gobaith olaf; a
 - (2) rhoi i fenthycwyr warchodaeth arolygiaeth y llys o'r broses adfeddiannu, a allai gael effaith lesiannol sylweddol ar eu bywydau.

- 1.11 Ar y llaw arall, mae costau'n gysylltiedig â'r cynnig hwn. Bydd angen i roddwr benthyciadau cofnodlyfr angen talu ffi llys (£155 ar hyn o bryd) a gall fynd i gostau cyfreithiol eraill. O dan ein cynigion, byddai caniatâd i roddwyr benthyciadau cofnodlyfr ychwanegu ffi'r llys ar gyfrif y benthyciwr, ond byddai'n rhaid iddyn nhw dalu eu ffioedd cyfreithiol eu hunain.
- 1.12 Ymhellach, efallai yn ogystal bydd oedi am sawl mis rhwng gwneud y cais i'r llys a'r gwrandawriad llys yn y pen draw. Yn ystod yr amser hwn, byddai benthycwyr yn parhau'n atebol am yr ôl-ddyledion a'r llog. Os yw'r rhoddwr benthyciadau cofnodlyfr yn y pen draw yn adfeddiannu ac yn gwerthu cerbyd y benthyciwr, ond ei fod yn derbyn llai na'r hyn sy'n ddyledus, byddai'r benthyciwr yn atebol am y diffyg (er ein bod yn cynnig na ddylai cartref y benthyciwr fod mewn risg).
- 1.13 Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau a yw buddion gorchymyn llys yn gorbwyso'r costau hyn.

Terfyniad gwirfoddol

- 1.14 Lle nad oes gan y benthyciwr unrhyw obaith gwirioneddol o barhau gyda'r taliadau, ni fydd gan farnwr lawer o ddewis ond rhoi caniatâd i'r rhoddwr benthyciadau cofnodlyfr adfeddiannu'r cerbyd. O dan yr amgylchiadau hyn, nid yw'r gorchymyn llys wedi gwarchod y benthyciwr, ond yr hyn a wnaeth oedd cynyddu'r costau yn unig a gohirio'r anochel: adfeddiannu'r cerbyd. Rydym yn cynnig gwarchod benthycwyr o'r fath drwy roi hawl o **derfyniad gwirfoddol** iddyn nhw.

CYNNIG 2: TERFYNIAD GWIRFODDOL

Dylai benthycwyr gael yr hawl i drosglwyddo'r cerbyd i'r rhoddwr benthyciadau cofnodlyfr mewn setliad llawn a therfynol o'r benthyciad cofnodlyfr. Yn dilyn terfyniad gwirfoddol, ni fyddai'r benthyciwr yn atebol am unrhyw swm sy'n weddill.

- 1.15 Mae'r rhan fwyaf o roddwyr benthyciadau cofnodlyfr eisoes yn darparu hawl o derfyniad gwirfoddol, sydd wedi'i ddarparu gan God Ymarfer Cymdeithas Fasnach Credyd Defnyddwyr. Rydym yn croesawu darpariaeth y Cod o'r hawl hon, ond rydym yn meddwl fod angen i'r hawl fod yn fwy hysbys. Yn ogystal, rydym yn meddwl y dylai'r ddarpariaeth fod yn berthnasol i bob rhoddwr benthyciadau cofnodlyfr. O ganlyniad, rydym yn cynnig y dylai terfyniad gwirfoddol fod yn hawl statudol.
- 1.16 Yn ogystal, mae terfyniad gwirfoddol yn berthnasol i gytundebau hurbwrcasu, ond mae ein cynnig yn ehangach. Yn arbennig, nid oes angen i fenthycwyr fod wedi ad-dalu canran o'u benthyciad cofnodlyfr yn gyntaf i fod â'r hawl i ymarfer yr hawl o derfyniad gwirfoddol; rydym yn cynnig y dylen nhw fod â'r hawl i wneud hyn ar unrhyw adeg.
- 1.17 Fodd bynnag, byddai tri o gyfyngiadau ar yr hawl o derfyniad gwirfoddol. Ni fyddai gan y benthycwyr yr hawl lle:

- (1) mae'r rhoddwr benthyciadau cofnodlyfr eisoes wedi mynd i gostau i adfeddiannu'r cerbyd. Lle mae benthyciwr wedi ad-dalu traean o gyfanswm y benthyciad, efallai gall hyn fod pan mae'r rhoddwr benthyciadau cofnodlyfr wedi talu'r ffi llys o £155;
- (2) mae'r cerbyd wedi cael ei ddifrodi yn bwrpasol neu'n fwriadol; neu
- (3) maen nhw wedi methu â chymryd gofal rhesymol o'r cerbyd ac, o ganlyniad, mae gwerth ailwerthu'r cerbyd wedi cael ei effeithio'n sylweddol.

GWARCHOD PRYNWYR

- 1.18 Pan mae'r benthyciwr yn cymryd benthyciad cofnodlyfr, daw'r rhoddwr benthyciadau cofnodlyfr yn berchennog ar y cerbyd. Os yw'r benthyciwr yn gwerthu'r cerbyd i unigolyn arall, nid yw'r prynwr yn berchennog ar y cerbyd. Gall y rhoddwr benthyciadau cofnodlyfr feddiannu'r cerbyd gan y prynwr, hyd yn oed os nad oes ganddo ef neu ganddi hi wybodaeth am y benthyciad cofnodlyfr.
- 1.19 Gall hyn achosi caledi sylweddol i brynwyr. Mae dewisiadau'r prynwr fel arfer i ad-dalu benthyciad cofnodlyfr y benthyciwr, talu i'r rhoddwr benthyciadau cofnodlyfr unwaith eto am y cerbyd, neu fel arall gadael i roddwr benthyciadau cofnodlyfr feddiannu'r cerbyd.
- 1.20 Mewn cyfraith hurbwrcasu, rhoddir gwarchodaeth statudol i brynwyr preifat (anfasnachol) pan maen nhw'n gweithredu yn ddidwyll a heb wybodaeth o'r cytundeb hurbwrcasu. Er y gall masnachwyr ceir ddarganfod am gytundebau hurbwrcasu sydd heb eu casglu drwy gynnal gwiriadau sy'n adnabyddus yn y diwydiant, nid yw hyn yn realistig ar gyfer defnyddwyr cyffredin. Rydym yn cynnig y dylai fod gwarchodaethau cyffelyb yn berthnasol pan mae prynwyr preifat yn prynu cerbyd sy'n amodol ar fenthyciad cofnodlyfr.

CYNNIG 3: PRYNWYR PREIFAT

Pan mae prynwyr preifat yn prynu cerbyd yn amodol ar fenthyciad cofnodlyfr yn ddidwyll a heb unrhyw wybodaeth wirioneddol am y benthyciad cofnodlyfr, dylen nhw ddod yn berchennog ar y cerbyd.

- 1.21 Yn y dyfodol, gallai ddod yn realistig i brynwyr preifat warchod eu hunain yn yr un ffordd â masnachwyr ceir. Pe byddai hyn yn dod yn wir, ni fyddai angen gwarchod prynwyr preifat mwyach drwy'r gyfraith. Mae gwireddu'r sefyllfa hon yn nwylo'r diwydiant benthyciadau cofnodlyfr hyn.

AROLWG EHangach

- 1.22 Mae'r cynigion hyn yn rhan o arolwg ehangach o gyfraith biliau gwerthiant. Mae'r arolwg yn edrych yn fanwl ar ofynion cofrestru; gofynion dogfennol; a sut y gallai benthyciad diogel ar nwyddau gael ei wneud yn haws ar gyfer busnesau anghorfforedig.
- 1.23 Gellir llawrlwytho'r papur ymgynghori llawn, ynghyd â fersiynau byr a hir o'r ffurflen ymateb o <http://www.lawcom.gov.uk/project/bills-of-sale>.